# Cyfrifiad Gofalwyr di-dâl sy'n cael asesiad o anghenion gofalwr 2025-26

## Y Cefndir

Mae **adran 3** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel:

- person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Rhan 2** Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol), para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chymorth [yn mynnu bod] staff i gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Arf Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol.

Mae'r cyfrifiad Gofalwyr Di-dâl sy'n cael cymorth yn seiliedig ar y diffiniad o ofalwyr di-dâl cymwys, h.y. oedolion (18 oed neu hŷn) a phobl ifanc (o dan 18 oed), **sydd wedi cael Asesiad o Anghenion Gofalwr yn y flwyddyn gasglu** ac nad yw eu hanghenion gofalu yn rhan o'u gwaith cyflogedig.

Dylai'r Asesiad o Anghenion Gofalwyr gynnwys unrhyw asesiadau o anghenion cymorth gofalwyr, gan gynnwys y rhai sy'n ymgorffori asesiadau manwl neu gynhwysfawr yn y broses asesu, a'r rhai sy'n ymgorffori asesiadau gofalwyr arbenigol. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw asesiadau o anghenion cymorth gofalwyr sydd wedi'u hymgorffori mewn asesiadau ehangach, neu ar y cyd, lle mae'r gofalwr wedi cael asesiad o'i anghenion fel gofalwr ar yr un pryd â'i anghenion gofal a chymorth ei hun, neu anghenion gofal a chymorth pobl eraill. Os yw unigolyn wedi cael asesiadau lluosog mewn blwyddyn, dylech gynnwys yr asesiad diweddaraf yn unig. Dylech gynnwys unigolion a gafodd asesiad mewn blwyddyn flaenorol ac sy'n cael eu hasesu eto eleni; mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael eu hailasesu gan eu bod eisoes yn derbyn cefnogaeth.

Peidiwch â chynnwys unigolion sy'n cael adolygiad o'u cynllun cymorth presennol yn unig (h.y. nid asesiad llawn). Dylech gynnwys y bobl hynny sy'n cael Asesiad o Anghenion Gofalwr llawn yn unig, hyd yn oed os cychwynnwyd yr asesiad hwnnw oherwydd adolygiad.

Dylid cyflwyno data i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ac adlewyrchu gwerth blwyddyn ariannol o ddata. Bydd y flwyddyn gyntaf yn rhoi manylion am oedolion sy'n cael gofal a chymorth yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Datblygwyd y cyfrifiad Gofalwyr Di-dâl sy'n cael cymorth gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn 2024.

### Canllawiau ar gyfer cwblhau a chyflwyno

Dylid defnyddio ffurflen y cyfrifiad Gofalwyr Di-dâl sy'n cael cymorth i gofnodi data unigol ar gyfer pob gofalwr sydd wedi derbyn gofal a chymorth yn y flwyddyn gasglu. Dylai'r data a ddarperir fod yn gywir i'r cyswllt diwethaf a gafodd yr awdurdod lleol â'r gofalwr di-dâl.

## Gofynion Data

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno data ar gyfer gofalwyr di-dâl a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra uchod ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gasglu (2025-26), waeth ar ba ddyddiad o fewn y flwyddyn honno y cafodd y gofalwr di-dâl asesiad.

Mae angen ffurflen unigol ar gyfer pob gofalwr di-dâl a gafodd asesiad o anghenion cymorth gofalwyr yn y flwyddyn gasglu, ni waeth a oes gan yr unigolyn hwnnw gynllun cymorth gweithredol ar 31 Mawrth.

Meysydd Gwir neu Anwir: Mae nifer o eitemau yn y cyfrifiad Gofalwyr sy'n cael Cymorth a all fod naill ai'n wir neu'n anwir. Y fformat ar gyfer y cyfrifiad Gofalwyr sy'n cael Cymorth yw 1 ar gyfer gwir, a 0 ar gyfer anwir. Fodd bynnag, gellir cyflwyno nifer o ffyrdd i ddefnyddwyr systemau gwybodaeth reoli gofnodi hyn megis blychau ticio neu gwymplen addas. Felly, bydd yn rhaid i gyfleuster allforio unrhyw system drosi'r meysydd hyn yn unol â hynny. Tybir bod eitemau gwag yn golygu nad oes data ar gael.

Dylid ateb cwestiynau ynghylch “a oes gan” neu "a oedd gan" y gofalwr di-dâl briodoleddau penodol, e.e. problemau iechyd neu anabledd, gan gyfeirio at yr adeg pan gynhaliwyd asesiad y gofalwr di-dâl. Mae hyn yn golygu bod y briodoledd yn gyfredol yn unol â'r wybodaeth sydd ar gael ar 31 Mawrth neu pan gynhaliwyd yr asesiad gofalwyr di-dâl.

Mae rhestr lawn o eitemau data yn Atodiad A. Mae'r nodiadau canlynol yn rhoi canllawiau manwl pellach ar gyfer adrannau penodol.

**Dylai'r ffurflen hon gael ei huwchlwytho, ei dilysu, neu ei chyflwyno ar Objective Connect erbyn**
**Ymholiadau ynghylch cynnwys y ffurflen -** stats.pss@gov.wales

## Manylion

Mae'r cwestiynau isod i'w cwblhau ar gyfer pob gofalwr di-dâl sy'n cael asesiad o anghenion gofalwr ar unrhyw adeg yn y flwyddyn ariannol.

### Cod awdurdod lleol

512 Ynys Môn

514 Gwynedd

516 Conwy

518 Sir Ddinbych

520 Sir y Fflint

522 Wrecsam

524 Powys

526 Ceredigion

528 Sir Benfro

530 Sir Gaerfyrddin

532 Abertawe

534 Castell-nedd Port Talbot

536 Pen-y-bont ar Ogwr

538 Bro Morgannwg

540 Rhondda Cynon Taf

542 Merthyr Tydfil

544 Caerffili

545 Blaenau Gwent

546 Torfaen

548 Sir Fynwy

550 Casnewydd

552 Caerdydd

### Dynodwr awdurdod lleol

Rhaid i hwn fod yn ID unigryw ar gyfer pob gofalwr di-dâl, a dylai aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn. Dim ond llythrennau neu rifau y gall ID oedolion yr awdurdod lleol eu cynnwys. Rhaid iddo fod yr un ID a ddefnyddir at ddibenion eraill.

Os ydych chi'n bwriadu newid ID yr awdurdod lleol, naill ai ar gyfer un unigolyn neu ar gyfer grŵp cyfan o unigolion, bydd yn atal Llywodraeth Cymru rhag dadansoddi ar draws gwahanol flynyddoedd y cyfrifiad. Am y rheswm hwn, dylid trafod unrhyw gynnig i newid IDs gyda Llywodraeth Cymru yn gynnar a chyn unrhyw newidiadau.

Os yw'r dynodwr yn cael ei ddarparu gan wasanaeth a gomisiynwyd, rhowch TP o flaen y dynodwr. Bydd hyn yn dangos bod y dynodwr yn cael ei ddarparu gan y sefydliad trydydd parti.

### Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)

Efallai y bydd gan ofalwyr ifanc mewn addysg Rif Disgybl Unigryw (UPN). Mae'r UPN yn cael ei ddyrannu'n awtomatig i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Mae'n

ddynodwr i'w ddefnyddio mewn cyd-destun addysgol yn unig yn ystod gyrfa ysgol plentyn ac mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau Diogelu Data.

Rhaid i'r UPN fod yn 13 nod yn y fformat Annnnnnnnnnnn neu AnnnnnnnnnnnA (ar gyfer UPN dros dro) lle mae A yn gymeriad ac n yn rhif. Dim ond fel mesur interim y gellir cyhoeddi UPN dros dro nes bod yr UPN parhaol ar gael.

Rhaid i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech i ddod o hyd i UPN y plentyn. Os nad yw plentyn wedi cael UPN gan ysgol a gynhelir, yna efallai y byddant wedi cael un gan yr Adran Addysg o fewn yr awdurdod lleol, sydd â'r gallu i neilltuo UPN i'r rhai sydd mewn darpariaeth amgen, er enghraifft. Dim ond lle mae'n amhosibl darganfod yr UPN y dylid gadael yr eitem yn wag.

Sylwch fod Ysgolion Meithrin a gynhelir hefyd yn dyrannu UPN, felly gall plentyn fod ag UPN o 2 neu 3 oed ymlaen.

### Cyfenw

Dylid darparu cyfenw hysbys diweddaraf y gofalwr di-dâl, fel y mae wedi’i gofnodi ar hyn o bryd.

### Enw(au) cyntaf

Dylid darparu enw cyntaf hysbys diweddaraf y gofalwr di-dâl, fel y mae wedi’i gofnodi ar hyn o bryd. Os oes gan yr unigolyn sawl enw cyntaf, rhowch bob enw gyda bwlch rhwng yr enwau.

### Cod post cartref

Cod post hysbys diweddaraf y cyfeiriad lle'r oedd y gofalwr di-dâl yn byw. Rhowch god post cartref y gofalwr di-dâl yn y fformat canlynol e.e. CF10 4SD.

Os yw'r gofalwr di-dâl yn byw mewn cartref gofal preswyl neu unrhyw fath o lety â chymorth, a dyma'i brif breswylfa, darparwch god post y cartref gofal.

### Dyddiad geni

Dylid darparu'r dyddiad geni yn y fformat DD MM BBBB.

Os nad yw'r union ddyddiad geni yn hysbys, cofnodwch ddyddiad geni bras yn seiliedig ar amcan oed y gofalwr di-dâl ar ddyddiad yr atgyfeiriad.

### Rhywedd

Y rhywedd y mae'r unigolyn yn ei arddel, nid ei ryw ar adeg ei eni. Dyma'r rhywedd olaf hysbys adeg cwblhau’r asesiad.

1 Gwryw
2 Benyw
3 Arall
4 Heb ei ddatgelu neu'n anhysbys

### Ethnigrwydd

Dylid pennu ethnigrwydd drwy ofyn i'r gofalwr di-dâl am ei hunaniaeth ethnig yn gyntaf, fel rhan o'i asesiad anghenion cymorth i ofalwyr.

WHTE1 - Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig

WHTE2 - Roma
WHTE3 - Unrhyw gefndir gwyn arall (gan gynnwys Saesnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig)
MIXD1 - Gwyn a Du Caribïaidd
MIXD2 - Gwyn a Du Affricanaidd
MIXD3 - Gwyn ac Asiaidd
MIXD4 - Unrhyw gefndir cymysg arall neu cefndir ethnig lluosog
ASAB1 - Indiaidd
ASAB2 - Pacistanaidd
ASAB3 - Bangladeshaidd
ASAB4 - Tseiniaidd
ASAB5 - Unrhyw gefndir Asiaidd arall
BBAC1 - Caribïaidd
BBAC2 - Affricanaidd
BBAC3 - Unrhyw gefndir Du arall
OOTH1 - Arabaidd
OOTH2 - Unrhyw grŵp ethnig arall
UNKN1 - Anhysbys

### Anabledd

Cofnodwch a oedd gan ofalwr di-dâl anabledd pan gwblhawyd asesiad o anghenion cymorth y gofalwr. At ddibenion yr eitem ddata hon, mae'r diffiniad o anabl yn dilyn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n nodi:

“Mae gan berson (P) anabledd os oes ganddo ef neu ganddi hi -

(a) amhariad corfforol neu amhariad meddyliol, a
(b) bod yr amhariad yn cael effaith andwyol hirdymor sylweddol ar allu P i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.”

Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, amhariad yw'r hyn y cyfeiriwyd ato'n hanesyddol fel “anabledd” neu gyflwr iechyd.

Yn ystod asesiad o anghenion gofalwr, bydd amhariadau'r gofalwr di-dâl yn cael eu hystyried i benderfynu a yw'r gofalwr di-dâl hwnnw yn ystyried ei hun yn anabl.

**A yw'r gofalwr yn ystyried eu hun yn anabl?**

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn hysbys

Os dewiswyd Nac ydy neu Ddim yn hysbys, ni ddylid gwneud unrhyw gofnodion eraill yn yr adran hon.

Os dewiswyd Ydy, yna dewiswch pob un o'r amhariadau penodedig sy'n berthnasol, nodwch 1 os nododd y gofalwr ei hun fod ganddo amhariad o'r math hwn pan gwblhawyd asesiad o anghenion y gofalwr.

Rhowch 0 os nad oedd gan y gofalwr di-dâl anabledd o'r math hwn pan gwblhawyd asesiad o anghenion y gofalwr.

**Categorïau o amhariad:**

- Golwg
- Clyw
- Corfforol (e.e. echddygol bras, deheurwydd llaw neu symudedd)
- Salwch meddwl (nid dementia neu gyflwr niwroddatblygiadol)
- Dementia
- Cyflwr niwroddatblygiadol (e.e. Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, syndrom Tourette neu anabledd dysgu)
- Arall (heb ei restru)
- Ddim yn hysbys

Efallai y bydd gan ofalwyr di-dâl anableddau lluosog, ac os felly gellir nodi bod mwy nag un categori yn wir. Efallai y bydd nifer fach o oedolion sy'n anabl, ond nad oes ganddynt unrhyw un o'r anableddau penodol. Ar gyfer y gofalwyr di-dâl hyn, nodwch 1 ar gyfer Arall (heb ei restru) a rhowch yr anabledd yn y blwch a ddarperir.

Os nad yw'n hysbys pa amhariad sydd gan y gofalwr (e.e. nid yw'r data wedi'i gofnodi), rhowch 1 ar gyfer Ddim yn hysbys.

### Iaith

Cofnodwch ddewis iaith y gofalwr di-dâl; dyma'r iaith y mae'n well gan y gofalwr di-dâl ei defnyddio i gyfathrebu ag eraill. Os oes gwahaniaethau rhwng yr iaith ysgrifenedig neu lafar a ffefrir, defnyddiwch yr iaith y darperir gofal a chymorth ynddi. Fel arfer, hon fydd yr iaith lafar neu wyneb yn wyneb a ffefrir. Gweler Atodiad B – Rhestr Codau Iaith.

Cofnodi'r dewis iaith pan gwblhawyd asesiad o anghenion y gofalwyr; os yw cynllun wedi cau, cofnodwch y dewis iaith ar ddyddiad y cau.

### Dyddiad cwblhau asesiad o anghenion gofalwr

Diffinnir asesiad o anghenion gofalwr statudol gan Ran 3, adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau pan fydd wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw (e.e. gweithiwr cymdeithasol penodedig). Dylai hyn fod pan fydd canlyniad yr asesiad wedi'i benderfynu a'i gytuno.

Mae’n berthnasol i (ail)asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu yn unig. Mae’r maes hwn yn cofnodi dyddiad yr (ail)asesiad diweddaraf yn ystod y flwyddyn gasglu.

- Os yw gofalwr yn cael ei asesu am y tro cyntaf, a dim ond unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu, cofnodwch y dyddiad hwn.

- Os oes gan ofalwr gynllun cymorth gofalwr eisoes, a’i fod wedi cael ei ailasesu yn ystod y flwyddyn gasglu, cofnodwch ddyddiad yr ailasesiad.
- Os cafodd gofalwr fwy nag un asesiad yn ystod y flwyddyn gasglu, cofnodwch ddyddiad yr (ail)asesiad mwyaf diweddar.

Dylid cofnodi hyn fel DD MM BBBB.

Efallai y bydd gan asesiad nifer elfennau lluosog hefyd, peidiwch â chofnodi nes bod yr elfennau hyn i gyd wedi'u cwblhau.

### Canlyniad asesiad o anghenion gofalwr

Adeg cwblhau asesiad o anghenion gofalwr, dylai'r canlyniad fod yn un o'r canlynol:

1. Gellid diwallu anghenion gyda chynllun cymorth neu gynllun gofal a chymorth gofalwr. Dyma pryd mae'r awdurdod lleol yn darparu, neu'n bwriadu darparu, unrhyw gymorth neu darpariaethau drwy gynllun cymorth.
2. Gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill. Er enghraifft, cymorth ar gael drwy wasanaethau ataliol neu drydydd parti.
3. Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i’w diwallu.

### Darpariaethau

Fel rhan o'r asesiad o anghenion gofalwr, dylid nodi darpariaethau angenrheidiol. Beth bynnag fydd canlyniad yr asesiad o anghenion y gofalwr, dylai'r asesiad asesu i ba raddau y mae angen darparu'r gwasanaethau canlynol:

1. Gwasanaethau a ariennir gan yr awdurdod lleol i'r gofalwr di-dâl barhau yn ei rôl ofalu (nid i ddiwallu anghenion gofal y gofalwr di-dâl ei hun na'r person sy'n derbyn gofal). Gweler Mathau o Wasanaethau isod
2. Ymyrraeth gynnar neu gymorth ataliol, gan gynnwys cynigion o gymorth i'r gofalwr di-dâl iddynt eu defnyddio pan fo angen a hefyd gwybodaeth, cyngor neu gymorth, megis cyfeirio pobl at wasanaethau cyffredinol
3. Dim

Cofnodwch a oedd angen unrhyw un o'r darpariaethau penodedig ar y gofalwr.
Os rhoddir 1 ar gyfer “dim”, ni ddylid gwneud unrhyw gofnodion eraill yn yr adran hon.
Os rhoddir 0 ar gyfer “dim”, yna ar gyfer pob un o'r darpariaethau penodedig sy'n berthnasol, rhowch 1 os oes angen y math hwn o ddarpariaeth ar y gofalwr di-dâl ar unrhyw adeg yn y flwyddyn gasglu.
Rhowch 0 os nad oedd y gofalwr di-dâl angen y math hwn o ddarpariaeth.

### Mathau o Wasanaethau

Os oes **angen** gwasanaethau ar gyfer y gofalwr di-dâl (h.y. os dewisir 1 o dan Darpariaethau), dylid cofnodi'r mathau o wasanaethau sydd eu hangen. Pwrpas y cymorth hwn yw galluogi'r gofalwr di-dâl i barhau yn ei rôl ofalu a/neu i'r gofalwr di-dâl gael seibiant o’i gyfrifoldebau gofalu.

Mae'r cymorth hwn yn cael ei **ariannu neu ei gynnig i'r gofalwr di-dâl** o ganlyniad i'r asesiad o anghenion y gofalwr.
**Peidiwch â chynnwys** cymorth sydd ar gael i bob gofalwr di-dâl fel rhan o gynnig cyffredinol.

Efallai y bydd angen mwy nag un math o gymorth ar unigolyn, dewiswch bob math o gymorth sydd ei angen ar yr unigolyn.

Ar gyfer pob math o gymorth, rhowch 1 os yw'r gofalwr di-dâl angen y cymorth hwn.
Rhowch 0 os nad oes angen y math hwn o gymorth ar y gofalwr di-dâl.

Mathau o wasanaeth:

- Gofal amgen neu rhyddhad
- Gweithgareddau wedi'u hariannu
- Cymorth domestig
- Taliadau uniongyrchol
- Arall

**Gofal Amgen neu Rhyddhad –** Cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol i roi rhyddhad i'r gofalwr di-dâl a/neu'r person sy'n derbyn gofal. Gallai hyn fod naill ai:

- lle mae'r unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael ei letya dros dro i ffwrdd o'i gartref neu ei fan preswylio arferol, e.e. mewn cartref preswyl.
- lle mae gofalwr cyflogedig yn darparu cymorth yng nghartref neu fan preswylio arferol yr unigolyn.

Dylai cyfnod y gofal bara un neu fwy o oriau, ond heb fod yn fwy na 3 mis. Peidiwch â chynnwys llety cartref gofal dros dro i'r unigolion hynny sy'n aros am becyn tymor hir

**Gweithgareddau a ariennir –** Gweithgareddau y mae'r awdurdod lleol yn eu darparu neu eu hariannu, i gefnogi lles gofalwyr. Gall y rhain gynnwys anghenion hamdden, cymdeithasol, diwylliannol neu addysgol y gofalwr. Gall hyn gynnwys grwpiau cymorth cymheiriaid, cwnsela a dosbarthiadau ymarfer corff. Dylai fod cost i'r gweithgareddau hyn sy'n cael ei thalu gan yr awdurdod lleol.

**Cymorth domestig –** Cymorth ychwanegol i'r gofalwr wrth gyflawni ei rôl ofalu. Gall hyn fod yn gymorth gyda glanhau, coginio neu ddarparu gofal i'r person 'sy'n derbyn gofal'. Gallai hyn gynnwys yr awdurdod lleol yn rhoi amser i staff gynorthwyo'r gofalwr di-dâl neu dalu am wasanaeth at yr un diben.

**Taliadau uniongyrchol –** Taliadau ariannol a wneir gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol i'r gofalwr di-dâl ar gyfer prynu gwasanaethau gofal a chymorth.

## Anghenion gofal a chymorth

Efallai y bydd gan ofalwr di-dâl ei anghenion gofal a chymorth ei hun, yn ogystal â darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Efallai y bydd yr anghenion hyn yn gymwys i gael cymorth gan yr

awdurdod lleol drwy gynllun gofal a chymorth neu beidio, ond gallant effeithio ar allu'r gofalwr i gyflawni ei rôl ofalu o hyd.

Gall hyn gael ei nodi yn ystod yr asesiad o anghenion y gofalwr neu ei godi ar wahân gan y gofalwr di-dâl. Efallai y bydd yr anghenion gofal a chymorth hyn hefyd yn cael eu nodi drwy gynnig asesiad ar wahân neu gynnal cyd-asesiad o anghenion ac anghenion gofal a chymorth gofalwr.

Yn yr asesiad diweddaraf o anghenion cymorth y gofalwr, a nodwyd bod gan y gofalwr di-dâl ei anghenion gofal a chymorth ei hun?

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn hysbys

Os oes gan y gofalwr di-dâl anghenion gofal a chymorth ond nad yw'n gymwys i gael cynllun gofal a chymorth, dewiswch Do. Dewiswch Do hefyd os oes gan y gofalwr di-dâl gynllun gofal a chymorth gyda'r awdurdod lleol.

## Cynlluniau gofal a chymorth

Yna, efallai y bydd gan y gofalwr di-dâl gynllun gofal a chymorth gyda'r awdurdod lleol, a all fod ar wahân i'w gynllun cymorth gofalwr neu wedi'i integreiddio ag ef.

A oes gan y gofalwr di-dâl gynllun gofal a chymorth ar gyfer ei anghenion gofal ei hun?

1. Oes
2. Nac oes
3. Ddim yn hysbys

Gellir cyfuno'r cynllun gofal a chymorth hwn â chynllun cymorth i ofalwr neu eu cadw ar wahân.

Efallai y bydd gan y gofalwr di-dâl gynllun gofal a chymorth a'i fod wedi cael asesiad o anghenion gofalwr yn y flwyddyn gasglu. Os yw'r gofalwr di-dâl wedi cael asesiad o anghenion gofalwr a bod ganddo gynllun gofal a chymorth, dylech eu cynnwys yma.

Dewiswch Oes, os oes gan y gofalwr anghenion gofal a chymorth sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun gofal a chymorth y person sy'n derbyn gofal.

# Atodiad A – Rhestr o eitemau data

Cod awdurdod lleol
Dynodwr awdurdod lleol
Cyfenw
Enw(au) cyntaf
Cod post cartref
Dyddiad geni
Rhywedd
Ethnigrwydd
Anabledd – Golwg
Anabledd – Clyw
Anabledd – Corfforol
Anabledd – Salwch meddwl
Anabledd – Dementia
Anabledd – Cyflwr niwroddatblygiadol
Anabledd – Arall (heb ei restru)
Anabledd – Dim
Iaith
Dyddiad cwblhau asesiad o anghenion gofalwr
Canlyniad asesiad o anghenion gofalwr
Darpariaethau
Mathau o Wasanaethau - Gofal amgen/rhyddhad
Mathau o Wasanaethau - Gweithgareddau wedi'u hariannu
Mathau o Wasanaethau - Cymorth domestig
Mathau o Wasanaethau - Taliadau uniongyrchol
Mathau o Wasanaethau - Arall
Anghenion gofal a chymorth
Cynlluniau gofal a chymorth

## Atodiad B - Rhestr Cod Iaith

| Cod | Iaith |
|---|---|
| ENG | Saesneg |
| CYM | Cymraeg |
| ACL | Acholi |
| ADA | Adangme |
| AFA | Afar-Saho |
| AFK | Affricaneg |
| AKA | Akan/Twi-Fante |
| ALB | Albaneg/Shqip |
| ALU | Alur |
| AMR | Amhareg |
| ARA | Arabeg |
| ARM | Armeneg |
| ASM | Asameg |
| ASR | Asyrieg/Arameg |
| AYB | Anyi-Baule |
| AYM | Aymara |
| AZE | Aserieg |
| BAI | Bamileceg (Pob un) |
| BAL | Balochieg |
| BEJ | Beja/Bedawieg |
| BEL | Belarwsieg |
| BEM | Bemba |
| BHO | Bhojpuri |
| BIK | Bikol |
| BIS | Bislama |
| BLT | Tibeteg Baltaidd |
| BMA | Bwrmeg/Myanma |
| BNG | Bengaleg |
| BSL | Iaith Arwyddion Prydain |
| BSQ | Basgeg/Euskara |
| BUL | Bwlgareg |
| CAM | Cambodieg/Khmer |
| CAT | Catalaneg |
| CCE | Saesneg Creoleg Garibïaidd |
| CF | Ffrangeg Creoleg Garibïaidd |
| CGA | Chaga |
| CGR | Chattisgarhi/Khatahi |
| CHE | Checheneg |
| CHI | Tseiniaidd |
| CKW | Chokwe |

| Cod | Iaith |
| --- | --- |
| CRN | Cernyweg |
| CTR | Chitrali/Khowar |
| CWA | Chichewa/Nyanja |
| CZE | Tsiecaidd |
| DAN | Daneg |
| DGA | Dagaare |
| DGB | Dagbane |
| DIN | Dinka/Jieng |
| DUT | Iseldireg/Fflemeg |
| DZO | Dzongkha/Bhutanese |
| EBI | Ebira |
| EDO | Edo/Bini |
| EFI | Efik-Ibibio |
| ESA | Esan/Ishan |
| EST | Estonieg |
| EWE | Ewe |
| EWO | Ewondo |
| FAN | Fang |
| FIJ | Ffijïeg |
| FIN | Ffineg |
| FON | Fon |
| FRN | Ffrangeg |
| FUL | Fula/Fulfulde-Pulaar |
| GAA | Ga |
| GAE | Gaeleg/Gwyddeleg |
| GAL | Gaeleg (Yr Alban) |
| GEO | Georgeg |
| GER | Almaeneg |
| GGO | Gogo/Chigogo |
| GKY | Kikuyu/Gikuyu |
| GLG | Galicieg/Galego |
| GRE | Groeg |
| GRN | Gwaraneg |
| GUJ | Gujarateg |
| GUN | Gurenne/Frafra |
| GUR | Gurma |
| HAU | Hausa |
| HDK | Hindko |
| HEB | Hebraeg |
| HER | Herero |
| HGR | Hwngareg |

| Cod | Iaith |
| --- | --- |
| HIN | Hindi |
| IBA | Iban |
| IDM | Idoma |
| IGA | Igala |
| IGB | Igbo |
| IJO | Ijo (Pob un) |
| ILO | Ilokano |
| ISK | Itsekiri |
| ISL | Islandeg |
| ITA | Eidaleg |
| JAV | Jafaneg |
| JIN | Jinghpaw/Kachin |
| JPN | Japaneeg |
| KAM | Kikamba |
| KAN | Kannada |
| KAR | Karen (Pob un) |
| KAS | Kashmiraidd |
| KAU | Kanuri |
| KAZ | Kazakh |
| KCH | Katchi |
| KGZ | Kirghiz/Kyrgyz |
| KHA | Khasi |
| KHY | Kihaya/Luziba |
| KIN | Kinyarwanda |
| KIR | Kirundi |
| KIS | Kisi (Gorllewin Affrica) |
| KLN | Kalenjin |
| KMB | Kimbundu |
| KME | Kimeru |
| KNK | Konkani |
| KNY | Kinyakyusa-Ngonde |
| KON | Kikongo |
| KOR | Coreeg |
| KPE | Kpelle |
| KRI | Krio |
| KRU | Kru (Pob un) |
| KSI | I Kisii/Ekegusii (Kenya) |
| KSU | Kisukuma |
| KUR | Cwrdeg |
| LAO | Lao |
| LBA | Luba |

| Cod | Iaith |
|---|---|
| LGA | Luganda |
| LGB | Lugbara |
| LGS | Lugisu/Lumasaba |
| LIN | Lingala |
| LIT | Lithwaneg |
| LNG | Lango (Uganda) |
| LOZ | Lozi/Silozi |
| LSO | Lusoga |
| LTV | Latfieg |
| LTZ | Lwcsembwrgeg |
| LUE | Luvale/Luena |
| LUN | Lunda |
| LUO | Luo (Kenya/Tanzania) |
| LUY | Luhya (Pob un) |
| MAG | Magahi |
| MAI | Maithili |
| MAK | Makua |
| MAN | Manding/Mandekan |
| MAO | Maori |
| MAR | Marathi |
| MAS | Maasai |
| MDV | Maldivian/Dhivehi |
| MEN | Mende |
| MKD | Macedoneg |
| MLG | Malagasy |
| MLM | Malayalam |
| MLT | Maltaeg |
| MLY | Malayeg/Indonesieg |
| MNA | Magindanao-Maranao |
| MNG | Mongolian (Khalkha) |
| MNX | Gaeleg Ynys Manaw |
| MOR | Moore/Mossi |
| MSC | Creoleg Mawritiws/Seychelles |
| MUN | Munda (Pob un) |
| MYA | Maya (Pob un) |
| NAH | Nahuatl/Mexicano |
| NAM | Nama/Damara |
| NBN | Nwbiaeg (Pob un) |
| NDB | Ndebele |
| NEP | Nepali |
| NOR | Norwyeg |

| Cod | Iaith |
|---|---|
| NUE | Nuer/Naadh |
| NUP | Nupe |
| NWA | Newari |
| NZM | Nzema |
| OAM | Ambo/Oshiwambo |
| OGN | Ogoni (Pob un) |
| ORI | Oriya |
| ORM | Oromo |
| OTL | Iaith Arall / Anhysbys / Methu cyfathrebu |
| PAG | Pangasineg |
| PAM | Pampanganeg |
| PAT | Pashto/Pakhto |
| PHA | Pahari/Himachali (India) |
| PHR | Pahari (Pacistan) |
| PNJ | Panjabeg |
| POL | Pwyleg |
| POR | Portiwgaleg |
| PRS | Persieg/Ffarsi |
| QUE | Quechua |
| RAJ | Rajasthaneg/Marwareg |
| RME | Romani/Romanes Saesneg |
| RMI | Romani (Rhyngwladol) |
| RMN | Rwmaneg |
| RMS | Romansch |
| RNY | Runyakitara |
| RUS | Rwsieg |
| SAM | Samoeg |
| SCB | Serbieg/Croateg/Bosnieg |
| SCO | Scoteg |
| SHL | Shilluk/Cholo |
| HOPE | Shona |
| SID | Sidamo |
| SIO | Iaith Arwyddion (Arall) |
| SLO | Slofaceg |
| SLV | Slofenieg |
| SND | Sindhi |
| SNG | Sango |
| SNH | Sinhala |
| SOM | Somalieg |
| SPA | Sbaeneg |
| SRD | Sardinieg |

| Cod | Iaith |
|---|---|
| SRK | Siraiki |
| SSO | Sotho/Sesotho |
| SSW | Swazi/Siswati |
| STS | Tswana/Setswana |
| SWA | Swahili/Kiswahili |
| SWE | Swedeg |
| TAM | Tamil |
| TEL | Telugu |
| TEM | Temne |
| TES | Teso/Ateso |
| TGE | Tigre |
| TGL | Tagalog/Ffilipineg |
| TGR | Tigrinya |
| THA | Thai |
| TIB | Tibeteg |
| TIV | Tiv |
| TMZ | Berber/Tamazight |
| TNG | Tonga/Chitonga (Zambia) |
| TON | Tongan (Oceania) |
| TPI | Tok Pisin |
| TRI | Gwyddeleg Teithwyr/Shelta |
| TSO | Tsonga |
| TUK | Twrcmeneg |
| TUL | Tulu |
| TUM | Tumbuka |
| TUR | Twrceg |
| UKR | Wcreineg |
| UMB | Umbundu |
| URD | Wrdw |
| URH | Urhobo-Isoko |
| UYG | Uyghur |
| UZB | Uzbek |
| VEN | Venda |
| VIE | Fietnameaidd |
| VSY | Visayan/Bisaya |
| WAP | Wa-Paraok (De-ddwyrain Asia) |
| WCP | Portiwgaleg Creoleg Gorllewin Affrica |
| WOL | Wolof |
| WPE | Bratiaith Saesneg Gorllewin Affrica |
| XHO | Xhosa |
| YAO | Yao/Chiyao (Dwyrain Affrica) |

| Cod | Iaith |
|---|---|
| YDI | Yiddish |
| YOR | Yoruba |
| ZND | Zande |
| ZUL | Zulu |
| ZZX | Gwrthod ateb |